

Newidiadau arfaethedig i'r marciau iechyd ac adnabod

27 Gorffennaf 2018

Annwyl Syr/Fadam

Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio'ch barn ar fater a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eich busnes yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig (DU) i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Fel y gwyddoch, mae manylion perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol yn parhau i fod yn destun trafodaethau. Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar nifer o faterion manwl lle mae'n amlwg y bydd angen newid i arferion busnesau, beth bynnag fo canlyniad y trafodaethau hynny. Mae'r llythyr hwn yn ymwneud â newidiadau i farciau iechyd ac adnabod ar rai cynhyrchion bwyd penodol.

Marciau iechyd ac adnabod yw'r stampiau hirgrwn y mae'n rhaid eu cynnwys ar gynhyrchion bwyd sy'n dod o anifeiliaid i gadarnhau eu bod wedi'u harolygu a'u bod yn addas i'w fwyta gan bobl. Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ni chaniateir y llythrennau 'EU' neu 'EC' sydd ar y marciau presennol. Bydd y newid hwn yn effeithio ar bob sefydliad cymeradwy.

Diweddariad i'r marc iechyd

Er mwyn darparu ar gyfer y newid hwn, mae'r ASB yn bwriadu diwygio'r marc iechyd ac adnabod presennol trwy gael gwared ar y rhagosodiad 'EU' neu 'EC'.

Bydd dimensiynau a ffurf y marciau iechyd ac adnabod presennol yn aros yr un fath, gan gynnwys y talfyriad "UK" sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn parhau i fod yn un marc sy'n cynnwys rhif cymeradwyo'r sefydliad, ni fydd y rhif yn newid chwaith. Gweler y lluniau ynghlwm.

Bydd y diweddariad hwn yn sicrhau bod cynnyrch y DU yn parhau i arddangos label priodol sy'n dangos yn glir bod y cynnyrch wedi bod yn destun y gwiriadau iechyd a lles llym a fydd yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE.

- **Rhowch wybod i ni am unrhyw farn neu bryderon ynglŷn â'r newid hwn i'r marc iechyd ac adnabod**

Defnyddio hen ddeunydd pecynnu

Mae angen i ni hefyd archwilio am ba mor hir y byddem ni'n parhau i dderbyn pecynnau sy'n cynnwys yr hen farc adnabod unwaith y byddwn ni wedi ymadael â'r UE, at ddefnydd domestig yn unig, ac nid ar gyfer allforio. Byddai hwn yn fesur interim i alluogi'r diwydiant i ddefnyddio stociau sydd â'r hen becynnau.

- **A oes gennych chi unrhyw wybodaeth a fydd yn ein helpu ni i benderfynu am ba mor hir y dylem ni barhau i dderbyn pecynnu domestig sy'n cynnwys yr hen farc adnabod, at ddefnydd domestig?**
- **Os ydych chi'n storio labeli neu ddeunydd pecynnu sydd wedi'u hargraffu ymlaen llaw sy'n cynnwys y marc adnabod, byddai gennym ni ddiddordeb gwybod pa mor hir y byddai'n cymryd i chi ddefnyddio'ch stoc bresennol.**

Effaith ehangach

Ein nod yw cadw'r newid i'r marc iechyd ac adnabod mor syml gan achosi'r baich lleiaf posib. Rydym ni am leihau'r effaith ar y diwydiant a sicrhau cydnabyddiaeth barhaus o frand y DU gan ddefnyddwyr yn y DU, yr UE ac i'r gwledydd hynny yr ydym ni'n allforio ein cynnyrch y tu allan i'r UE.

- **A oes unrhyw effeithiau eraill y dylem ni fod yn ymwybodol ohonynt o ganlyniad i newid y marc iechyd ac adnabod?**
- **Mae'n bwysig bod yr ASB yn asesu effaith y newid hwn yn llawn felly dywedwch wrthym am unrhyw safbwynt neu dystiolaeth i gynorthwyo ein hasesiad.**
- **Yn benodol, byddai'r ASB yn croesawu unrhyw wybodaeth y gallwch ei darparu ar y costau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:**
 - **argraffu marciau adnabod ar gyfer allforio i'r UE**
 - **argraffu marciau adnabod ar gyfer y farchnad ddomestig**
 - **(ail)ddylunio'r labeli hynny**

Y camau nesaf

Os oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y materion sy'n cael eu nodi yn y llythyr hwn, anfonwch e-bost at csulondontransactions@food.gov.uk erbyn dydd Gwener 27 Awst 2018.

Caiff y safbwyntiau y byddwch chi'n eu darparu ar y mater hwn eu bwydo i'r ymgynghoriad ffurfiol ehangach ar sut mae'r ASB yn bwriadu dod â rheoliadau hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE i mewn i ddeddfwriaeth y DU. Bydd yr ymgynghoriad yn lansio cyn bo hir.

Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer ein cynnig wedi'i benderfynu eto ac mae'n ddibynnol ar y trafodaethau ymadael. Mae'r ASB yn paratoi ar gyfer ystod o senarios ymadael a'r dyddiad cynharaf y byddai'r newidiadau a gynigir i farc adnabod ac iechyd y DU yn cael eu gweithredu yw 29 Mawrth 2019. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch sicrhau bod yr ASB a DAERA yn cymryd camau i sicrhau bod y staff gweithredol mewn sefydliadau yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt yn meddu ar farciau iechyd priodol o'r dyddiad hwn.

Yn gywir

Rod Ainsworth
Cyfarwyddwr y Strategaeth Rheoleiddio a Chyfreithiol
Asiantaeth Safonau Bwyd

Y Marc Iechyd ac Adnabod Cyfredol



UK 12345 EC

Marc Iechyd ac Adnabod Arfaethedig y DU



UK 12345

A / NEU

Cyfredol



UK
12345
EC

Arfaethedig



UK
12345

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919